03.01.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Article

Dathlu tirwedd a ffermydd mwyaf anghysbell Cymru

Cwm Elan yw un o ardaloedd mwyaf diarffordd y wlad. Ychydig o bobl sy'n dal i fyw a ffermio ar y mynyddoedd hyn lle mae'r ponis a'r defaid yn rhydd i bori ar yr Elenydd.

Ar DRYCH: Hel y Mynydd, nos Sul 12 Ionawr ar S4C am 9.00 cawn ddod i adnabod rhai o ffermwyr a bugeiliaid yr ardal hynod hon wrth iddynt barhau i grynhoi y defaid yn y ffordd draddodiadol– traddodiad sy'n prysur ddod i ben.

Un sy'n parhau â'r traddodiad yw Glyndwr, prif fugail ystâd Cwm Elan, sy'n ffermio yn Claerwen gyda'i wraig Wendy:

"Dwi'n helpu crynhoi a chyfnewid gyda chymdogion. S'dim lot o ni ar ôl sy'n gallu crynhoi yn y ffordd draddodiadol. Ma'n rhaid cael ci fan hyn, neu bydde man a man aros adre! Ma bywyd yn hectic ma ganol haf wrth i ni grynhoi bob dydd. S'dim un ffens rhyngdda i a'r cymdogion – i fi ma'n ffordd gret o fyw!

"Pan chi'n crynhoi chi yn yr unigeddau. S'dim lot o'r busnes crynhoi ma yn mynd mlan ond ni'n gwneud e fan hyn ac mae'n gweithio ac os yw'n gweithio sdim ishe'i gywiro fe wedyn!"

Daw'n amlwg yn ystod y rhaglen fod ffermwyr y mynydd agored yn ddibynnol iawn ar ei gilydd ac yn cyfnewid help wrth grynhoi defaid ei gilydd.

Cawn gwrdd hefyd ag Erwyd, y bugail profiadol o Bonterwyd:

"Wrth gerdded y mynydd mae dyn yn gweld rhyfeddodau natur, dyma dwi'n alw'n baradwys. Dwi'n teimlo'n rhan o'r lle - mae'n hollol unigryw."

Adeiladwyd cronfeydd yng Nghwm Elan yn y 1890au i ddarparu dwr i ddinasoedd canolbarth Lloegr. Oherwydd y cronfeydd mae tirwedd heb ffensys wedi goroesi ar ystâd Cwm Elan ac mae'r ffermydd i gyd yn eiddo i ymddiriedolaeth Cwm Elan.

Ychwanega Neil sy'n helpu ei frawd i ffermio yn Hirnant, Cwm Elan:

"Does dim rheolau yma, does neb yn colli pres na neb yn gwneud pres, mae pawb jyst yn helpu eu gilydd. Dyma mae'n siŵr ydy un o'r llefydd prin le tase'r hen fois yn dod nol bydden nhw'n medru dangos i ni sut ma gwneud!"

Un arall sy'n helpu'r criw yw Gwyndaf, cymydog a chneifiwr:

"Ma pobol ar lawr gwlad yn meddwl bod bois y mynydd yn gwneud dim byd, ond ma'n syndod faint o waith caled yw e. Dwi ddim yn gweld fydd defaid ar y mynydd mewn sawl blwyddyn."

Yn dilyn diwrnod hel, mae diwrnod cneifio.

"Mae diwrnod cneifio wedi bod yn ddiwrnod pwysig yn nghalendr y mynydd erioed gyda'r gymdeithas fynydd yn dod at ei gilydd. Ma'n un o'r jobs na ma rhaid ei wneud e ond wi wrth fy modd yn cneifio.

"Bydden i'n cneifio bob dydd o'r flwyddyn os allen i!"

DRYCH: Hel y Mynydd
12 Ionawr ar S4C am 9.00
Isdeitlau Saesneg
Ar gael ar Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Fresh Catch ar gyfer S4C

03.01.2020

Manon Wyn James
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880418 / 07887 455572

Erthygl i'r Wasg Press Article

Celebrating Wales's most remote farms and landscapes

The Cambrian mountains, known as the backbone of Wales, is one of the country's most secluded areas. Only a handful of people still live on and farm these mountains where the ponies and sheep are free to roam on the Elenydd.

In **Drych: Hel y Mynydd**, on S4C on Sunday, January 12 at 9.00, we get to know some of the farmers and shepherds in this extraordinary area as they continue to round-up sheep in the traditional way on foot and on horseback – a tradition which is rapidly dying out.

One of those who continues the tradition is Glyndwr, the head shepherd for the Cwm Elan estate, who farms Claerwen with his wife Wendy:

"I help to round-up and exchange sheep with neighbours. There aren't many of us left who can round-up the sheep in a traditional way. You have to have a dog here or you might as well stay at home. Life is hectic here in the middle of summer as we round-up every day. There isn't a single fence between me and my neighbours – to me, that's a great way to live."

"When you're rounding-up you are in complete solitude. There isn't a lot of this rounding-up business going on any longer, but we continue to do it here and it works here – and if it works, there's no need to change it!"

It becomes obvious during the programme that farmers on the open mountain are dependent on each other and offer help by rounding-up each other's sheep.

We also meet Erwyd, an experienced shepherd from Ponterwyd:

"While walking the mountains, a person gets to see the wonders of nature, this is what I call paradise. I feel a part of the place – it is completely unique."

A reservoir was built in the Elan Valley in 1970 to supply water to cities in the midlands of England. Because of the reservoir, the landscape without fences has survived on the Cwm Elan estate and the farms all belong to the Cwm Elan Trust.

Clive, who farms at Hirnant in the Elan Valley adds:

"There are no rules here, no-one makes money or loses money, everybody just helps one another. This must be one of the few places where if the old boys came back, they would show us a thing or two."

Another who helps the crew is Gwyndaf – neighbour and shearer:

"The country folk think that the mountain boys don't do anything, but it's amazing what hard work it is. I can't see there being any sheep left on the mountain in a few years."

Following a day of rounding up, comes a day of shearing.

"Shearing day has always been an important day in the mountains' calendar with the mountain community coming together. It's one of those jobs that have to be done, but I love shearing.

I would shear every day of the year if I could!"

DRYCH: Hel y Mynydd
Sunday, 12 January 9.00, S4C
English subtitles
Available on clic, iPlayer and other platforms.
A Fresh Catch production for S4C